

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2022 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraffau 12 ac 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ac maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/1179) (Cy. 238) ("Rheoliadau 2018").

Maent yn gwneud addasiadau i Reoliadau 2018, o ganlyniad i ddiwygiadau a wnaed gan Reoliadau Rheolaethau Swyddogol (Estyn Cyfnodau Trosiannol) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/1443). Gwnaeth y diwygiadau yn y Rheoliadau hynny estyn y "cyfnod graddoli trosiannol" (a ddiffiniwyd yn Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 (EUR 2017/625)).

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2018 er mwyn alinio amseriad gosod ffioedd penodol yng Nghymru â'r cyfnod graddoli trosiannol estynedig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn

perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 i'w cymeradwyo gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2022 Rhif (Cy.)

**YMADAEL Â'R UNDEB
EWROPEAIDD, CYMRU**

**IECHYD PLANHIGION,
CYMRU**

HADAU, CYMRU

**Rheoliadau Iechyd Planhigion etc.
(Ffioedd) (Diwygio) (Cymru)
(Ymadael â'r UE) 2022**

Gwnaed

Yn dod i rym

yn unol â rheoliad 1

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 7(2) o Atodlen 4 a pharagraffau 12 ac 21(b) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(1).

Gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno(2).

-
- (1) 2018 p. 16; gweler paragraff 8 o Atodlen 4 am ystyr "appropriate authority". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) a pharagraffau 38 a 53(2) o Atodlen 5 iddi.
- (2) Mae'r cyfeiriad yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 a deuant i rym drannoeth y diwrnod y'u gwneir.

Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018

2.—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

- (a) ym mharagraff (2E), yn lle “1 Mawrth 2022” rhodder “diwedd y cyfnod graddoli trosiannol”;
- (b) ym mharagraff (3), ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

“(ba) mae i “y cyfnod graddoli trosiannol” yr ystyr a roddir i “the transitional staging period” yn Atodiad 6 i Reoliad (EU) 2017/625 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gyflawnir i sicrhau y cymhwysir cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion gwarchod planhigion.”

(3) Ym mhennawd Atodlen 2A, yn lle “1 Mawrth 2022” rhodder “ddiwedd y cyfnod graddoli trosiannol”.

Enw

Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion
Cymru
Dyddiad

(1) O.S. 2018/1179 (Cy. 238); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2019/1378 (Cy. 244), O.S. 2020/44 (Cy. 5), O.S. 2020/69 (Cy. 10), O.S. 2020/1628 (Cy. 342) ac O.S. 2021/713 (Cy. 181).